Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-RE-1277-22

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

26 Ebrill 2022

Annwyl Peredur,

Diolch am waith craffu'ch Pwyllgor ar Ail Gyllideb Atodol 2021-22 a'r adroddiad dilynol.

Atodaf ymateb ysgrifenedig i'r argymhellion a wnaed. Gobeithiaf y bydd yr ymateb yn ddefnyddiol ichi.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I'R ARGYMHELLION YN ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYLLID:

CRAFFU AR AIL GYLLIDEB ATODOL LLYWODRAETH CYMRU 2021-22

EBRILL 2022

Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i gyhoeddi gwybodaeth am symiau canlyniadol yn ystod y flwyddyn a'r trosglwyddiadau y mae'n eu cael gan Lywodraeth y DU, gan gynnwys sut y cânt eu cyfrifo ac a ydynt yn cael eu gwneud yn unol â'r fethodoleg y cytunwyd arni, yn enwedig pan fo ffigurau gwahanol yn cael eu nodi gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Ymateb: Derbyn

Cyhoeddir manylion y newidiadau i gyllideb Llywodraeth Cymru fel rhan o bob un o ddigwyddiadau cyllidebol Llywodraeth Cymru. Lle y bo'n ymarferol, darperir rhagor o wybodaeth mewn perthynas â throsglwyddiadau o adrannau llywodraeth eraill a sut y cyfrifwyd y rhain.

Mae Llywodraeth y DU yn cyhoeddi manylion llawn yr holl symiau canlyniadol a dderbyniwyd yn Adroddiad Tryloywder y Grant Bloc. Cyhoeddwyd y fersiwn ddiweddaraf ym mis Rhagfyr 2021 a gellir ei gweld yn https://www.gov.uk/government/publications/block-grant-transparency-december-2021

Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU am hyblygrwydd ychwanegol i wario'r dyraniadau y mae'n eu cael yn hwyr yn y flwyddyn ariannol ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw drafodaethau y mae'n eu cael â Thrysorlys EM ar y mater hwn.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU am hyblygrwydd cyllidebol ychwanegol ochr yn ochr â'r Gweinidogion Cyllid datganoledig eraill. Yn y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid a gynhaliwyd ar 21 Mawrth, arweiniwyd eitem gennym ar gyllidebu a chyfathrebu o ran y Llywodraethau Ddatganoledig, gan roi enghreifftiau o'n profiad o gyllidebu ar ddiwedd blwyddyn a chan bwysleisio pwysigrwydd cael mwy o sicrwydd.

Cytunwyd ar gamau i swyddogion weithio gyda'i gilydd i ystyried a ellir gweithredu prosesau diwedd blwyddyn yn fwy effeithiol o fewn y fframweithiau cyllidol presennol. Bydd swyddogion yn adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid, y disgwylir iddo gael ei gynnal cyn toriad yr haf.

Rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth drawsbleidiol y Pwyllgor Cyllid, a byddem yn croesawu eich sylwadau parhaus ar y mater hwn.

Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cydadolygiad o'r prosesau cyllidebol yn ystod y flwyddyn a diwedd y flwyddyn y mae wedi gofyn iddynt gael eu cynnal pan geir ymateb gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys, ac mae'n gofyn bod manylion ynghylch ei gylch gorchwyl yn cael eu rhannu â'r Pwyllgor cyn cychwyn, gan gymryd bod ei gais yn cael ei ganiatáu.

Ymateb: Derbyn

Roedd yr ymateb a gawsom gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys ar 21 Chwefror yn destun siom. Nid oedd ei ymateb yn cyfeirio at ein cais am adolygiad ar y cyd o'r broses gyllidebol yn ystod y flwyddyn a diwedd y flwyddyn, ond cytunodd i barhau i archwilio ffyrdd o gyfathrebu sydd mor effeithiol â phosibl a sicrhau bod y trefniadau ar gyfer gweithredu'r strwythurau cyllidol yn gweithio'n effeithiol. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu o dan y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid fel yr amlinellir yn yr ymateb i Argymhelliad 2.

Argymhelliad 4

Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi gwybodaeth am y balans yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru ar y sefyllfa alldro a hefyd fel rhan o’r ddogfennaeth sy’n cyd-fynd â phob cyllideb yn y dyfodol.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn llunio Adroddiad ar Alldro bob blwyddyn fel rhan o broses sefydledig sy'n cynnwys y balans yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru. Anfonir copi i’r Pwyllgor Cyllid ar ôl i'r cyfrifon blynyddol gael eu harchwilio a'u cymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Bydd yr arfer hwn yn parhau. Yn ogystal, mae'r adroddiadau yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae holl gyllidebau Llywodraeth Cymru yn nodi lle y bwriedir tynnu arian o Gronfa Wrth Gefn Cymru yn y blynyddoedd ariannol perthnasol. Byddwn yn ceisio cynnwys rhagor o wybodaeth am y Gronfa pan fo’n hynny’n ymarferol.

Argymhelliad 5

Mae’r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu rhagor o ddiweddariadau ar y gwaith y mae’n ei wneud i godi proffil grantiau a chynlluniau i fynd i’r afael â’r argyfwng costau byw ac mae’n ailadrodd ei alwad am ddatblygu system integredig o gymorth mewn ymateb i'r pwysau ariannol llym sydd ar lawer o aelwydydd.

Ymateb: Derbyn

Canfu Adolygiad Llywodraeth Cymru o Dlodi Plant nad oedd llawer o deuluoedd naill ai'n ymwybodol o'r cymorth a oedd ar gael iddynt neu eu bod yn dod ar draws rhwystrau wrth wneud cais am y cymorth ariannol yr oedd ganddynt hawl iddo.

Cyflwynodd yr Adolygiad adroddiad i'r Cabinet ym mis Mawrth 2020 lle cytunwyd y dylid bwrw ymlaen â'r elfen hon o'r canfyddiadau rhag blaen i helpu aelwydydd y mae'r pandemig yn effeithio arnynt.

Mewn ymateb, ym mis Tachwedd 2020, lansiwyd Cynllun Gweithredu Pwyslais ar Incwm a oedd yn nodi cyfres o gamau gweithredu i helpu teuluoedd i reoli effeithiau ariannol y pandemig drwy hybu gwytnwch ariannol a lleihau costau hanfodol.

Cafodd gwybodaeth am hynt y gwaith o gyflawni'r gweithgarwch a amlinellir yn y Cynllun i helpu i gynyddu incwm i'r eithaf a lleihau costau byw mewn Adroddiad Terfynol ym mis Mehefin 2021.

Ar 17 Chwefror 2022, cynhaliodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol Uwchgynhadledd Costau Byw. Unwaith eto, cododd y cynrychiolwyr yr angen am fwy o gyhoeddusrwydd i'r cymorth ariannol sydd ar gael i aelwydydd sy'n cael trafferthion a'r angen i symleiddio'r dulliau o gael gafael arno.

Mae gwaith yn parhau ar nifer o ffrydiau gwaith y Cynllun, gan gynnwys cyflawni Amcan 1 - bod teuluoedd yng Nghymru yn cael eu helpu i hawlio'r holl gymorth ariannol y mae ganddynt hawl iddo. Datblygwyd nifer o gamau gweithredu i ategu'r gwaith o gyflawni'r amcan hwn:

1.1 Rhoi strategaeth gyfathrebu ar waith i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd o fudd-daliadau, gwasanaethau a rhaglenni sy'n bodoli eisoes i leddfu tlodi incwm.

Drwy gydol mis Mawrth 2021, cyflwynwyd yr ymgyrch gyfathrebu genedlaethol gyntaf ar fanteisio ar fudd-daliadau yng Nghymru, gan hybu ymwybyddiaeth o'r budd-daliadau sydd ar gael a'r cymorth ariannol arall y gall pobl ei gael. Arweiniodd yr ymgyrch at **£651,504** yn ychwanegol yn cael ei hawlio gan y rhai sydd â hawl i fudd-daliadau.

Ym mis Hydref 2021, lansiwyd ein hail ymgyrch genedlaethol i godi ymwybyddiaeth pobl o fudd-daliadau lles a'u hannog i ffonio Advicelink Cymru i gael y cymorth sydd

ei angen arnynt i lywio'u ffordd drwy'r system fudd-daliadau. Mae'r ymgyrch yn cael ei chyflwyno'n bennaf ar lwyfannau digidol/cyfryngau cymdeithasol ar hyn o bryd.

Ar 21 Mawrth 2022, ail-lansiwyd ein hymgyrch 'mochyn gwyrdd' ar y dreth gyngor wrth i aelwydydd ddechrau cael eu biliau am y flwyddyn ariannol i ddod. Mae'r ymgyrch yn codi ymwybyddiaeth o'r ystod eang o gymorth y gall aelwydydd ei gael â'u treth gyngor, ac yn annog pobl i ganfod a ydynt yn gymwys. Eleni rydym wedi ehangu cwmpas ein cynnwys ar gyfryngau cymdeithasol, ein rhwydwaith cyngori o fwy na 400 o sefydliadau, yn ogystal â meddygfeydd a fferyllfeydd.

Ym mis Ionawr 2022 penodwyd Asiantaeth Hysbysebu newyd sy'n datblygu cyfres o ddeunyddiau creadigol a fydd yn cael eu darparu ar bob platfform, gan gynnwys teledu, radio, y cyfryngau cymdeithasol/digidol, papurau newydd lleol/cenedlaethol, taflenni / negeseuon post wedi'u targedu at grwpiau poblogaeth allweddol. Rydym yn disgwyl i'n hymgyrch integredig genedlaethol ddechrau ym mis Ebrill.

Yn ddiweddar, rydym wedi diweddaru ein taflen Cymorth Ariannol i Unigolion sy'n rhoi gwybod sut y gall teuluoedd gael gafael ar gymorth a allai fod ar gael iddynt nawr. Rydym wedi cwblhau proses gaffael i benodi contractwr i ddatblygu'r hyfforddiant codi ymwybyddiaeth am ddim i weithwyr rheng flaen a gyflwynwyd drwy gydol 2021. Bydd y sesiynau newydd yn dechrau ym mis Ebrill 2022 ac yn rhedeg hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Hyrwyddwyd y Cynllun Cymorth Tanwydd y Gaeaf diweddar drwy ein sianeli cyfathrebu, a gweithiodd swyddogion yn agos gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol i annog pobl i fanteisio ar y cynllun.

Dosbarthwyd pecyn cymorth o adnoddau cyfathrebu i'n rhanddeiliaid, gan gynnwys y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant a National Energy Action. Roedd ein hymgyrch gyfathrebu Pwyslais ar Incwm hefyd yn cynnwys marchnata'r Cynllun Cymorth Tanwydd y Gaeaf yn genedlaethol drwy'r cyfryngau digidol a'r radio, er mwyn sicrhau bod aelwydydd cymwys yn cael cymorth â biliau tanwydd y gaeaf hwn.

Cafodd y Grant Caledi i Denantiaid ei hyrwyddo'n genedlaethol i bob landlord ac asiant gosod drwy Rhentu Doeth Cymru, yn ogystal â thrwy holl randdeiliaid y sector rhentu preifat ar y cyfryngau cymdeithasol a sianeli eraill. Bu'r awdurdodau lleol yn cyfathrebu â chysylltiadau lleol i geisio lledaenu'r neges ymysg tenantiaid, er enghraifft drwy'r gwasanaethau cymorth tai a swyddfeydd y Ganolfan Byd Gwaith, yn ogystal â thrwy ymgyrchoedd cyfathrebu lleol megis hysbysebion mewn gorsafoedd trenau a chysgodfannau bysiau. Cafodd y Grant Caledi i Denantiaid ei hyrwyddo hefyd drwy'r ymgyrch gyfathrebu ehangach ar Bwyslais ar Incwm.

1.2 Cynnal gweithgareddau wedi'u targedu i godi ymwybyddiaeth o hawli i fudd-daliadau, annog pobl i hawlio budd-daliadau a hwyluso newid ymddygiad tymor hwy ymhlith grwpiau sydd leiaf tebygol o fanteisio ar y cymorth ariannol y mae ganddynt hawl iddo.

Rhwng mis Hydref 2020 a mis Mawrth 2021, cynhaliwyd chwe chynllun peilot Profi a Dysgu i gyfleu negeseuon a chefnogaeth benodol i annog grwpiau sydd leiaf tebygol o fod yn hawlio'r holl gymorth ariannol y mae ganddynt yr hawl iddo i fanteisio ar fudd-daliadau.

Cynhaliwyd y cynlluniau peilot dros bum mis ac ymgysylltwyd â 1,440 o aelwydydd, a gafodd gyngor a chymorth i ddatrys 5,087 o faterion budd-daliadau lles a 1,802 o faterion yn ymwneud â meysydd eraill o ran cyngor ar les cymdeithasol, megis materion tai, dyled a chyflogaeth. O ganlyniad, hawliwyd £2,468,052 o incwm ychwanegol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal y cyllid a ddarparodd ar gyfer y cynlluniau peilot i alluogi'r gwasanaeth cyngor ar fudd-daliadau lles i barhau i gael ei dargedu at grwpiau blaenoriaeth yn chwe Rhanbarth y Gronfa Gynghori Sengl.

1.3 Paratoi a darparu pecynnau gwybodaeth penodol a hyfforddiant codi ymwybyddiaeth ar gyfer gweithwyr rheng flaen a chyfryngwyr dibynadwy sy'n cefnogi plant a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi.

O dan y Cynllun Gweithredu Pwyslais ar Incwm, fe wnaethom hefyd ddarparu hyfforddiant i weithwyr rheng flaen. Nod y cynllun peilot oedd darparu mwy o gyngor a chymorth ynghylch budd-daliadau lles drwy'r modelau cymorth i deuluoedd presennol. Roedd y cyfranogwyr hyn yn gweithio mewn amrywiaeth o rolau, gan

gynnwys gweithwyr cymorth iaith gynnar, gweithwyr cymorth i deuluoedd, gweithwyr cymorth i dadau, cydgysylltwyr Dechrau'n Deg a chydweithwyr yn yr Adran Gwaith a Phensiynau.
Ar 23 Medi 2021, roedd 215 o sesiynau wedi'u cyflwyno gyda chyfartaledd o 14 o weithwyr rheng flaen yn bresennol ym mhob sesiwn.

Mae'r adborth gan weithwyr rheng flaen yn gadarnhaol iawn, gyda 60% yn nodi bod eu gwybodaeth am fudd-daliadau lles wedi cynyddu a bod ganddynt fwy o hyder yn eu gallu i helpu defnyddwyr gwasanaethau i hawlio'r budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt.

Tua chwe wythnos ar ôl iddynt fynychu sesiwn, cysylltwyd â gweithwyr rheng flaen gan ofyn iddynt lenwi holiadur. Dangosodd hyn fod 70% wedi defnyddio'r hyn a ddysgwyd yn y sesiwn i ganfod defnyddwyr gwasanaethau a allai fod yn hawlio budd-dal lles, a chadarnhaodd 20% ohonynt bod eu defnyddiwr gwasanaethau wedi gwneud hawliad budd-dal llwyddiannus, nad oeddent yn ymwybodol o'r blaen bod ganddynt hawl i'w gael.

Cwblhawyd proses gaffael yn ddiweddar i benodi contractwr i ddarparu rhaglen newydd o hyfforddiant ar-lein am ddim i weithwyr rheng flaen. Bydd y sesiynau'n dechrau ym mis Ebrill 2022 ac yn cael eu cynnal hyd at ddiwedd mis Mawrth 2023.

1.4 Cynllun peilot Ymchwil Weithredu i ddarparu mwy o gyngor a chymorth ar fudd-daliadau lles drwy'r modelau cymorth i deuluoedd sy'n bodoli eisoes, er mwyn helpu i sicrhau bod incwm yn cael ei gynyddu i'r eithaf.

Mae cyflwyno'r Gronfa Gynghori Sengl ym mis Ionawr 2020 wedi sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn rhoi cyllid grant i wasanaethau cyngor integredig a chosteffeithiol sydd wedi'u cynllunio'n strategol ac sy'n helpu i ateb y galw cynyddol am wasanaethau cynghori.

Mae'r gwasanaethau cynghori ar fudd-daliadau a ddarperir drwy'r Gronfa yn amhrisiadwy o ran helpu pobl i lywio'u ffordd drwy'r system fudd-daliadau a deall yn well beth y gallant fod yn gymwys i'w gael a sut i hawlio. Cynigir 'gwiriad o'r hawl i fudd-daliadau lles' i bawb sy'n defnyddio gwasanaethau'r Gronfa, waeth pa broblem a

nodir ganddynt pan fyddant yn cysylltu â'r Gronfa am gymorth e.e. problem yn ymwneud â thai, cyflogaeth ac ati. Ers cyflwyno'r Gronfa Gynghori Sengl yng Nghymru, mae mwy na 117,000 o bobl wedi cael cymorth i ennill incwm ychwanegol o dros £67 miliwn.

Mae model darparu gwasanaethau'r Gronfa Gynghori Sengl yn cynnwys Cynghori, a Phartneriaid Mynediad. Mae Partneriaid Mynediad yn ystod eang o sefydliadau cymunedol sy'n estyn allan at eu defnyddwyr gwasanaethau i sicrhau bod pobl yn deall sut y gallant gael gafael ar y cyngor sydd ei angen arnynt.

1.5 Darparu system o 'basbortio' rhwng budd-daliadau awdurdodau lleol gan ei gwneud yn haws ac yn gyflymach i wneud cais am gymorth yng Nghymru.

Rydym wedi gweithio'n helaeth gydag awdurdodau lleol i nodi ffyrdd o symleiddio'r broses ymgeisio am fudd-daliadau Cymreig ac i nodi'r opsiynau ar gyfer cynyddu'r nifer sy'n manteisio arnynt.

Canfu ein gwaith gydag awdurdodau lleol amrywiaeth o rwystrau rhag datblygu system o basbortio rhwng budd-daliadau Cymreig gan gynnwys gallu'r system TG a phryderon ynghylch rhannu data.

Fodd bynnag, tynnodd y gwaith hwn sylw hefyd at amrywiaeth o weithgareddau a helpodd i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y budd-daliadau. Roedd y mentrau'n cynnwys defnyddio ffurflenni cais sengl ar gyfer yr holl fudd-daliadau a weinyddir gan awdurdodau lleol ac asesiad awtomatig o'r hawl rhwng gwahanol fudd-daliadau. Ymgymerodd llawer â gweithgarwch i godi ymwybyddiaeth fel taflenni drwy'r post, datblygu gwefannau sy'n cyfeirio pobl at gymorth ychwanegol a gwaith rhagweithiol gydag ysgolion.

Ar sail y cydweithio hwn, fe wnaethom ddatblygu a chyhoeddi Arweinlyfr Arferion Gorau. Mae hwn yn crynhoi'r 'hyn sy'n gweithio' o ran helpu i symleiddio'r broses o wneud cais am fudd-daliadau datganoledig, gan eu gwneud yn fwy hygyrch i bobl sydd angen y cymorth hwn.

Ar hyn o bryd mae swyddogion tlodi yn gweithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru sy'n arwain ar fentrau fel prydau ysgol am ddim i ddisgyblion ysgolion cynradd, y Grant Amddifadedd Disgyblion a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i archwilio opsiynau ar gyfer chwalu'r rhwystrau sy'n llesteirio pobl rhag manteisio ar fudd-daliadau ac i ddatblygu opsiynau ar gyfer gwella mynediad atynt.

Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn pennu ei thargedau ar gyfer lleihau amseroedd aros ac, yn fwy cyffredinol, gynnwys yn ei dogfennaeth gyllidebol, y canlyniadau a'r effeithiau a ddisgwylir ar gyfer cyllid ychwanegol y GIG a sut y bydd yn datblygu ei chynllun adfer mewn perthynas â'r GIG.

Ymateb: Derbyn

Yn unol ag ymrwymiad y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, bydd cynllun adfer i fynd i'r afael ag amseroedd aros, "Ein rhaglen ar gyfer trawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros yng Nghymru" yn cael ei lansio ar 26 Ebrill.

Mae'r ddogfen yn nodi ein hymrwymiadau i'r cyhoedd yng Nghymru, a hynny drwy gyfres o uchelgeisiau perfformiad lefel uchel o ran lleihau'r amseroedd aros i gleifion yng Nghymru fel a ganlyn[1]:

- Erbyn diwedd 2022 ni fydd neb yn aros am fwy na blwyddyn am eu hapwyntiad cleifion allanol cyntaf
- Erbyn mis Mawrth 2023, cael gwared ar amseroedd aros o fwy na dwy flynedd yn y rhan fwyaf o arbenigeddau
- Erbyn gwanwyn 2025, cael gwared ar amseroedd aros o fwy na blwyddyn yn y rhan fwyaf o arbenigeddau
- Erbyn Gwanwyn 2024, cyflymu profion ac adroddiadau diagnostig i wyth wythnos ac i 14 wythnos ar gyfer ymyriadau therapi

[1] Caiff y mesurau hyn eu dadansoddi ar gyfer pobl o dan 18 oed ac ar gyfer pobl dros 18 oed i sicrhau tegwch o ran oedran

- Erbyn 2026, rhoi diagnosis a thriniaeth canser o fewn 62 diwrnod i 80% o bobl

Mae'r cynllun yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer adfer, a'r cerrig milltir y disgwyliwn eu cyflawni. Mae'r cynllun yn heriol ac yn canolbwyntio ar leihau rhestrau ac amseroedd aros yn ogystal â thrawsnewid y ffordd yr ydym yn darparu gofal dewisol yng Nghymru.

Dyma restr o'r buddsoddiadau a fydd yn cefnogi'r cynllun, gyda chrynodeb byr o'u nodau a'u canlyniadau:

- Mae refeniw adfer rheolaidd o £170m wedi'i ddatganoli ar hyn o bryd i bob bwrdd iechyd drwy eu dyraniad blynyddol. Bydd y dyraniad yn cefnogi cynlluniau lleol y bwrdd iechyd i gyflawni eu rhan hwy o'r uchelgeisiau cenedlaethol. Ategwyd y buddsoddiad gan restr o'r meysydd i ganolbwyntio arnynt:
    - Gweithredu argymhellion y Rhaglen Endosgopi Genedlaethol.
    - Gwasanaethau cataract rhanbarthol yn unol â chyngor y rhaglen Gofal a Gynlluniwyd.
    - Cynlluniau rhanbarthol ar gyfer agweddau ar wasanaethau orthopedig yn seiliedig ar waith y strategaeth glinigol orthopedig.
    - Gwasanaethau diagnostig a delweddu cryfach yn ar sail y cyngor a gomisiynwyd oddi wrth y Rhaglen Delweddu Genedlaethol.
    - Gweithredu'r Cynllun Gofal Critigol a ddatblygwyd gan y Rhwydwaith Gofal Critigol.
    - Cynlluniau i wella gwasanaethau canser a strôc.

- Bydd monitro cynnydd yn erbyn cynlluniau y cytunwyd arnynt yn rhan o strwythur atebolrwydd presennol y GIG, ar y cyd â'r strwythur llywodraethiant sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer yr adferiad sy'n datblygu, a ategir drwy benodi cyfarwyddwr adfer yng ngweithrediaeth y GIG.
- Refeniw rheolaidd o £20m i gefnogi gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth - Bydd hyn yn cefnogi adferiad y GIG, gan ganolbwyntio ar ddarparu ymyriadau gwerth uchel sy'n sicrhau gwell canlyniadau i gleifion ac yn helpu i wneud gwasanaethau'n gynaliadwy a lleihau amseroedd aros am driniaeth yn y tymor canolig.
- £15m o refeniw rheolaidd ar gyfer y rhaglen gofal a gynlluniwyd - i ddarparu cymorth ariannol ar gyfer sefydlu atebion cenedlaethol yn unol â'r pum nod gofal arfaethedig.

Oherwydd natur integredig gwasanaethau gofal a gynlluniwyd, bydd buddsoddiadau mewn meysydd ategol eraill hefyd yn bwysig i gefnogi'r gwaith o gyflawni uchelgeisiau megis diagnosteg (gan gynnwys endosgopi), y gweithlu ac addysg, iechyd meddwl a gofal sylfaenol.

Fel rhan o gyllideb Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar 1 Mawrth 2022, rydym wedi amlinellu adnoddau ychwanegol i gefnogi iechyd meddwl a llesiant, gan roi £50m yn 2022/23. Bydd y cyllid hwn yn rhoi hyblygrwydd i helpu gwasanaethau i ymateb i anghenion iechyd meddwl sy'n newid a pharhau i gefnogi nifer o feysydd blaenoriaeth a nodir yn y Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, gan gynnwys cynyddu ein cynnig cyffredinol ar gyfer cymorth iechyd meddwl a mwy o fynediad at therapïau seicolegol.

Argymhelliad 7

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd rhagor o gamau i hyrwyddo'r cymorth ariannol sydd ar gael i ofalwyr drwy'r Ail Gyllideb Atodol, gan gynnwys gofalwyr di-dâl, fel eu bod yn ymwybodol o'r cyllid y mae ganddynt hawl iddo ac yn galw am werthuso mentrau o'r fath ac i'r Pwyllgor gael ei hysbysu o unrhyw ganlyniadau.

Ymateb: Derbyn

Mae'n bwysicach nag erioed bod pobl ledled Cymru yn deall yr holl gymorth ariannol sydd ar gael iddynt ac mae'r ymateb i Argymhelliad 5 yn nodi gwybodaeth am ein strategaeth gyfathrebu i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o fudd-daliadau, gwasanaethau a rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

O ran gofalwyr di-dâl yn benodol, sefydlwyd y Gronfa Cymorth i Ofalwyr, sy'n werth £1.25m, gennym yn 2020 i helpu gofalwyr di-dâl i ymdopi â'r pwysau ariannol cynyddol sy'n deillio o'r pandemig. Yn 2021-22 dyrannwyd £1.25m yn ychwanegol i barhau â'r gronfa hon. Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru wedi goruchwylio'r gwaith o weinyddu'r gronfa, gyda'i phartneriaid rhwydwaith o sefydliadau gofalwyr yn

hysbysebu grantiau i ofalwyr di-dâl yn eu cymunedau lleol. Fe wnaethant g ganolbwyntio ar ganfod gofalwyr di-dâl nad oeddent eisoes yn hysbys i wasanaethau cymorth statudol.

Yn 2020-21, cyrhaeddodd y gronfa bron i 6,000 o ofalwyr di-dâl, ac nid oedd 2,500 ohonynt yn derbyn unrhyw fath o gymorth o'r blaen. Rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Ionawr 2022, cafodd dros 2,300 o ofalwyr gymorth.

Canfu gwerthusiadau o'r gronfa gymorth yn ystod y naill flwyddyn a'r llall ei bod wedi helpu ystod eang o ofalwyr di-dâl ym mhob rhan o Gymru. Yn ogystal â'r cymorth ariannol a gynigir gan y grantiau, mae gofalwyr hefyd wedi elwa ar y gwasanaethau cymorth, y cyngor a'r wybodaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a ddarperir gan Bartneriaid Rhwydwaith. Byddwn yn hapus i rannu'r adroddiad gwerthuso â'r Pwyllgor.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid o £29m i ddarparu taliad untro o £500 i'r 57,000 o ofalwyr di-dâl yng Nghymru sy'n derbyn Lwfans Gofalwr. Bydd y taliad yn cefnogi'r unigolion hynny sy'n gofalu am rywun am o leiaf 35 awr yr wythnos ac sydd ag incwm isel. Bydd gofyn i ofalwyr di-dâl gofrestru â'u hawdurdodau lleol i dderbyn y taliad ac rydym yn buddsoddi mewn ymgyrch gyfathrebu wedi'i thargedu i sicrhau bod cymaint â phosil o bobl yn manteisio ar y taliad hwn.

Er mwyn helpu i fynd i'r afael ag angen pob gofalwr di-dâl i gael seibiant byr a chyfle am egwyl, cyhoeddwyd £9m o gyllid newydd dros y tair blynedd nesaf ar 11 Ebrill. Bydd y cynllun yn cynyddu'r cyfleoedd i ofalwyr di-dâl gymryd seibiant ac yn eu helpu i fwynhau cyfnodau rheolaidd i ffwrdd oddi wrth eu cyfrifoldebau gofalu. Bydd y cynllun yn cael ei gydlynu gan sefydliad trydydd sector a fydd yn cydweithio ag eraill ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i alluogi mwy o ofalwyr di-dâl i gael y seibiant cywir iddynt hwy, ar yr adeg iawn. Bydd y corff cydgysylltu yn gyfrifol am hyrwyddo'r cynllun a bydd yn gweithio gyda phartneriaid cyflawni i sicrhau bod y cyllid yn cyrraedd y gofalwyr di-dâl sydd fwyaf o angen y seibiant.

Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu dadansoddiad o'r £70 miliwn o gyllid cyfalaf ychwanegol a ddyrannwyd drwy'r Ail Gyllideb Atodol hon fesul awdurdod lleol, a rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor ynghylch pam y dyrannwyd hwn, yn ogystal ag egluro'r amcanion y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r cyllid hwn eu cyflawni.

Ymateb: Derbyn

Mae'r dadansoddiad o'r £70 miliwn o gyllid cyfalaf cyffredinol ychwanegol wedi'i nodi yn y tabl isod:

Awdurdod unedol	**Cyfanswm (£)**
Ynys Môn	1,700,529
Gwynedd	3,213,159
Conwy	2,696,632
Sir Ddinbych	2,375,866
Sir y Fflint	3,184,856
Wrecsam	2,757,955
Powys	3,614,902
Ceredigion	2,276,806
Sir Benfro	2,959,219
Sir Gaerfyrddin	4,670,755
Abertawe	5,023,754
Castell-nedd Port Talbot	3,510,338
Pen-y-bont ar Ogwr	3,115,671
Bro Morgannwg	2,702,921
Rhondda Cynon Taf	5,417,635
Merthyr Tudful	1,234,318
Caerffili	3,817,739
Blaenau Gwent	1,502,409
Torfaen	2,125,858
Sir Fynwy	1,916,731
Casnewydd	3,210,014
Caerdydd	6,971,933
Cymru	**70,000,000**

Mae'r awdurdodau lleol yn wynebu sawl her o ran eu rhaglenni cyfalaf o ganlyniad i'r tarfu a'r oedi oherwydd Covid a'r cynnydd cyffredinol yng nghostau'r diwydiant adeiladu ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys costau uwch oherwydd bod contractwyr

wedi gorfod cadw pellter cymdeithasol am rannau o'r flwyddyn yn unol â'r rheoliadau; oedi oherwydd capasiti'r gweithlu adeiladu yn sgil absenoldebau'n gysylltiedig â Covid a hunanynysu; cystadleuaeth am gontractwyr a gwasanaethau arbenigol oherwydd oedi yn 2020 a 2021 yn sgil cyfyngiadau Covid; a chwyddiant cyffredinol mewn costau contractau a deunyddiau.

Mae rhaglenni buddsoddi cyfalaf awdurdodau lleol yn rhai hirdymor ac yn rhedeg dros fwy na blwyddyn, gydag ymrwymiadau a chontractau'n rhedeg dros fwy nag un flwyddyn ariannol. Cyhoeddwyd y setliad llywodraeth leol drafft yn hwyrach na'r arfer eleni oherwydd amseriad Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant Llywodraeth y DU a'r sgil-effaith ar gyhoeddiad Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu mai ychydig iawn o amser sydd gan lywodraeth leol i addasu eu rhaglenni i ystyried y gostyngiad mewn cyllid ar gyfer 2022-23 yn dilyn y gyllideb gyfalaf siomedig a gafwyd gan Lywodraeth y DU.

Mae gan bob awdurdod flaenoriaethau gwahanol ac maent ar wahanol gamau yn y rhaglenni cyfalaf presennol ar draws meysydd polisi amrywiol. Mae'r dyraniad ychwanegol o gyllid cyfalaf cyffredinol yn rhoi'r hyblygrwydd i awdurdodau lleol reoli eu rhaglenni cyfalaf i dalu unrhyw gostau ychwanegol mewn contractau yn y flwyddyn gyfredol a rheoli eu rhaglenni a'u hopsiynau ariannu er mwyn cael y gwerth gorau o'u hadnoddau, drwy ddefnyddio'r grant ar unwaith, lleihau gofynion benthyca neu reoli hunangyllido drwy gronfeydd wrth gefn.

Gwnaed y dyraniadau ar sail fformiwla gyfalaf gyffredinol llywodraeth leol sy'n ystyried nodweddion a ffactorau gwahanol awdurdodau, sy'n effeithio ar yr angen am wariant.

Argymhelliad 9

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi rhagor o wybodaeth ynghylch sut y penderfynwyd ar y £22 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd i wasanaethau bysiau yn yr Ail Gyllideb Atodol, sut y mae wedi

asesu digonolrwydd y cymorth hwn i gyflawni ei hamcanion a sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu gwerthuso ei effaith.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r diwydiant bysiau drwy gydol y pandemig gan ddefnyddio ymyriadau ariannu wedi'u targedu.

Sefydlwyd lefel y cyllid sydd ei angen drwy gydol y flwyddyn yn seiliedig ar anghenion y diwydiant ac awydd Llywodraeth Cymru i sicrhau ein bod yn cynnal rhwydwaith craidd o fysiau yn ystod y pandemig a oedd yn galluogi pobl i wneud teithiau hanfodol drwy gydol y cyfnod. Roedd hyn hefyd yn sicrhau bod rhwydwaith addas yn parhau i fodoli y tu hwnt i'r pandemig er mwyn caniatáu i Lywodraeth Cymru fwrw ymlaen â'i hamcan yn y Rhaglen Lywodraethu i sicrhu newid mewn dulliau teithio, o ddefnyddio ceir preifat i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a dulliau teithio llesol.

Mae'r cymorth hwn yn parhau drwy gydol y cyfnod adfer. Bydd swyddogion yn cynnal gwerthusiad o'r cymorth a gynigir ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2023 ac yn rhoi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor Cyllid bryd hynny.

Argymhelliad 10

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi rhagor o wybodaeth am benodi Uwch-weision Sifil i 20 o swyddi ychwanegol, gan gynnwys pam mae eu hangen, pa rolau y mae'r ymgeiswyr llwyddiannus yn eu gwneud yn y sefydliad ac a yw'r penodiadau'n cael eu gwneud am gyfnod parhaol neu benodol.

Ymateb: Derbyn

Yn haf 2020, cyflwynodd y cyn Ysgrifennydd Parhaol, Shan Morgan, achos busnes i'r Prif Weinidog ar gyfer cynllun recriwtio allanol i benodi i hyd at 20 o swyddi Dirprwy Gyfarwyddwr newydd. Cytunwyd gyda Gweinidogion ar y rolau a oedd yn fwyaf o flaenoriaeth o ran pwysau a bylchau, ac roedd y rhain yn cynnwys rolau ar draws nifer o wahanol feysydd portffolio. Defnyddiwyd y cynllun hefyd fel dull o lenwi swyddi gwag sy'n codi ar lefel Dirprwy Gyfarwyddwr.

Mae adeiladu gweithlu ar gyfer trydydd degawd datganoli yn golygu datblygu sefydliad mwy ystwyth sy'n fwy abl o ran galllu polisi a gallu dadansoddol, gyda sgiliau dylanwadu cryf a sgiliau arwain yn y sector cyhoeddus, yn ogystal â sgiliau cyflawni gweithredol. Amcan y cynllun oedd cynyddu'r galluoedd hyn o fewn Uwch Wasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru fel ei fod:

- **Yn fwy medrus wrth ddatblygu polisi**: sgiliau craidd y Gwasanaeth Sifil neu feddwl strategol, drafftio, dadansoddi polisi ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghyd ag ystwythder a gallu digidol;
- **Yn fwy amrywiol**: mae ein record o ran cydraddoldeb rhywiol yn rhesymol er nad yw'n rhagorol, ond mae'n rhaid gwella ein record o ran staff Du, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig a staff anabl fel ein bod yn adlewyrchu'n well y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu;
- **Yn fwy ystwyth:** bod yn rhan o wasanaeth cyhoeddus ehangach yng Nghymru sy'n annog cyfnewid.

Cafodd y cynllun recriwtio effaith gadarnhaol ar ein targedau cydraddoldeb ac amrywiaeth. Cafodd penodiadau eu gwneud yn barhaol, a chafodd siliau a phrofiad yr ymgeiswyr llwyddiannus ei paru â'r swyddi mwyaf priodol. Dechreuodd yr ymgeiswyr ymgymryd â'u swyddi o fis Ionawr 2021. Cadwyd rhestr wrth gefn ar gyfer paru â swyddi gwag yn y dyfodo,l a daw hyn i ben ym mis Mehefin 2022.

Argymhelliad 11

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi rhagor o wybodaeth am gwmpas ac amseriad adolygiad yr Ysgrifennydd Parhaol o fodel gweithredu Llywodraeth Cymru, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru.

Ymateb: Derbyn

Ymrwymodd y cyn Ysgrifennydd Parhaol, Shan Morgan i adolygiad o fodel gweithredu Llywodraeth Cymru. Ni phenderfynwyd ar gwmpas manwl yr adolygiad a'r camau gwella cysylltiedig ar y pryd gan fod yr Ysgrifennydd Parhaol parhaus yn teimlo y byddai'n briodol i'w holynydd fwrw ymlaen â hyn ar ôl ei benodi.

Ers hynny, mae'r Ysgrifennydd Parhaol presennol wedi ymgysylltu â Gweinidogion, yr Uwch Wasanaeth Sifil, ac undebau llafur cynrychioliadol mewn trafodaethau ar y blaenoriaethau ar gyfer datblygu a newid sefydliadol wrth i ni ddod allan o gyfnod hir o reoli argyfwng.

Cymeradwywyd cynigion ar gyfer rhaglen datblygu sefydliadol sy'n adlewyrchu'r trafodaethau hyn gan Fwrdd Llywodraeth Cymru ar 18 Mawrth. Ar 4 Ebrill, lansiodd yr Ysgrifennydd Parhaol “Lywodraeth Cymru 2025” fel sgwrs gyda staff ar bob lefel ynghylch yr hyn y mae angen ei newid er mwyn galluogi'r sefydliad i fod yn addas i'r diben mewn byd ar ôl y pandemig ac ar ôl Brexit.

Cynhelir cyfres o ddigwyddiadau ‘archwilio dwfn' drwy gydol y gwanwyn a'r haf ar elfennau craidd datblygu sefydliadol, gan gynnwys gwerthoedd ac ymddygiadau, strategaeth y gweithlu, strategaeth y gweithle a strategaeth ddigidol yn ogystal â meysydd gwaith sy'n canolbwyntio ar newid trawsnewidiol a gwelliant parhaus.

Mae’r penderfyniadau cynnar a wnaed fel rhan o Llywodraeth Cymru 2025 yn cynnwys ailstrwythuro'r uwch dîm arwain a'r Grwpiau i gyd-fynd yn agosach â phortffolios y Gweinidogion a chyfrifoldebau cyflawni'r Rhaglen Lywodraethu. Daeth y strwythur newydd yn weithredol ar 1 Ebrill.